Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD MERCHER, 14 HYDREF 2020**

**AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU **CYFARFOD RHITHWIR** O'R **CYNGOR SIR** A GYNHELIR AM **2.00 YP** AR **DDYDD IAU, 22AIN HYDREF, 2020** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Janine Owen** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224030** |
| **E-bost:** | **JanineOwen@sirgar.gov.uk** |

**SYLWCH:**
Os oes angen cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg arnoch yn ystod y cyfarfod, ffoniwch: 0330 336 4321 cyfrin-gôd 34827598#
**(Am daliadau galwad cysylltwch â'ch darparwr gwasanaeth.)**

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# A G E N D A

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

3. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.**

4. **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNOD CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 9 MEDI 2020** 5 - 12

5. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

6. **CWESTIYNAU GAN YR AELODAU:-**

**6 .1 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ALUN LENNY I'R CYNGHORYDD EMLYN DOLE, ARWEINYDD Y CYNGOR**

"Yn ddiweddar, fe nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod bron I 700,000 o bobl wedi canfod eu hunain mas o waith rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf oherwydd Covid-19. Erbyn mis Gorffennaf fe wnaeth diweithdra godi'n uwch na 4%. Gyda'r cynllun furlough yn dod i ben ar ddiwedd y mis yma (Hydref 31) mae'n anochel y bydd diweithdra yn cynyddu eto. Ni allwn guddio rhag y gaeaf llwm sydd o'n blaenau. Felly, gyda hyn mewn golwg, a yw'r Awdurdod hwn yn hyderus bod digon o gymorth lles ar gael i'w drigolion, a bod y gefnogaeth yna ar gael yn rhwydd?"

7. **YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-**

**7 .1 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD ALUN LENNY**

Cais i Lywodraeth Cymru am adolygiad o'r polisi Datblygiad Un Blaned Cafodd y polisi *Datblygiad Un Blaned* ei roi ar waith gan Lywodraeth Cymru'n Un yn 2010 ac mae'n rhan o Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6 *–Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy.* Mae gan y polisi amcan clodwiw sef y dylai Cymru, o fewn un genhedlaeth, ond ddefnyddio ei chyfran deg o adnoddau'r ddaear. Mewn egwyddor, mae'n cydymffurfio â'r hyn a gytunwyd gennym yn ystod cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Chwefror 2019 i ddatgan argyfwng hinsawdd ac ymrwymo i wneud Cyngor Sir Caerfyrddin yn awdurdod lleol carbon sero-net erbyn 2030.

Fodd bynnag, yn ymarferol, mae Datblygiad Un Blaned yn peri problemau
am dri rheswm penodol:

1. Mae canfyddiad cyffredin bod y polisi'n cael ei ddefnyddio I ddiystyru'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae hyn wedi arwain at gryn ddrwgdeimlad gan drigolion gwledig sy'n ei chael yn anodd – os nad yn amhosibl – i

adeiladu cartref newydd ar gyfer y genhedlaeth iau ar eu tir.

2. Mae TAN 6 yn nodi y gellid ond caniatáu annedd yng nghefn gwlad os yw'n cefnogi menter wledig sydd eisoes wedi'i sefydlu am o leiaf dair blynedd ac sydd wedi profi ei bod yn gynaliadwy. Nid yw cais am Ddatblygiad Un Blaned yn seiliedig ar dystiolaeth flaenorol, ond ar gynllun rheoli sy'n ceisio rhagweld llwyddiant y datblygiad dros gyfnod o 5 mlynedd ar ôl rhoi caniatâd cynllunio.

3. Rhaid cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r cynllun rheoli. Gallai methu â bodloni telerau'r cynllun arwain at achosion gorfodi. Fodd bynnag, mae monitro cydymffurfiaeth yn peri problemau, oherwydd diffyg arbenigedd mewn Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Cred Cyngor Sir Caerfyrddin fod y polisi Datblygiad Un Blaned, er ei fwriad clodwiw pan gafodd ei roi ar waith 10 mlynedd yn ôl, yn peri problemau ymarferol. Wrth ystyried y pryder cynyddol am y ffordd y mae'r polisi hwn yn cael ei weithredu, effaith gronnol datblygiadau o'r fath, a'r problemau o ran monitro, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r polisi ac ystyried gosod moratoriwm ar geisiadau Datblygiad Un Blaned wrth i adolygiad o'r fath gael ei gynnal. Rydym hefyd yn awgrymu y dylai adolygiad o'r fath ystyried a ellid cynnwys rhai elfennau o'r Datblygiad Un Blaned, sy'n ymwneud ag arferion cynaliadwy, mewn polisïau cynllunio prif ffrwd mewn ffordd fwy radical, er mwyn cael effaith ehangach ar leihau allyriadau carbon.

**7 .2 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD JOHN JAMES** 13 - 14

Bod y Cyngor hwn yn cydnabod y cyfraniad hanfodol y mae busnesau bach, y diwydiant ffermio a mentrau gwledig wedi'i wneud ers dechrau argyfwng Covid-19 yn Sir Gaerfyrddin. Heb eu hymrwymiad llwyr i ddosbarthu i'n cymunedau a'u gallu I addasu eu harferion gwaith i ddarparu ar gyfer anghenion sy'n newid yn barhaus, byddai llawer o drigolion Sir Gaerfyrddin wedi ei chael yn anodd goroesi.

Maent wedi chwarae rhan hanfodol wrth ategu gallu a phenderfyniad yr Awdurdod Lleol hwn i ymdopi cystal ag y mae wedi'i wneud yn ystod Covid-19.

Felly, rydym yn galw ar Gyngor Sir Caerfyrddin i ymrwymo I gynorthwyo a chefnogi'r busnesau hyn mewn cynifer o ffyrdd â phosibl yn ystod y cyfnod anwadal hwn, gan gofio hefyd am yr effaith negyddol na ellir ei rhagweld y byddai Brexit heb gytundeb yn ei chael arnynt.

**8. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O'R CYFANFSODDIAD** 15 - 68

**9. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-**

| | | |
|---|---|---|
| **9 .1** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN AR GYFER 2019/20** | 69 - 156 |
| **9 .2** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DANGOSYDD DARBODAETH 2019-2020** | 157 - 174 |
| **9 .3** | **CYTUNDEB CYD-BWYLLGOR BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE** | 175 - 178 |
| **9 .4** | **FERSIWN ADNEUOL DRAFFT O GYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG SIR GAERFYRDDIN 2018 - 2033** | 179 - 278 |

**10. DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODYDD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-**

| | | |
|---|---|---|
| **10 .1** | **7FED MEDI 2020** | 279 - 284 |
| **10 .2** | **21AIN MEDI 2020** | 285 - 292 |
| **10 .3** | **5ED HYDREF 2020** | 293 - 296 |

**11. CADARNHAU'R NEWIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU:-**

**11 .1 MAE'R GRWP PLAID CYMRU WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD DAI THOMAS I LENWI'R LLE GWAG AR Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

**12. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)**

**12 .1 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 10FED MEDI 2020**

**12 .2 PWYLLGOR ARCHWILIO - 11EG MEDI 2020**

**12 .3 PWYLLGOR SAFONAU - 14EG MEDI 2020**

**12 .4 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 22AIN MEDI 2020**

**13. NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIAD SY'N YMWNEUD Â'R MATER CANLYNOL GAN EI FOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y BWRDD, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.**

| | | |
|---|---|---|
| **14.** | **PENTRE AWEL** | 297 - 492 |